O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2327 (Cy.244)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *19 Medi 2011*

Yn dod i rym *26 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain - De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton), Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 26 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw'r darn hwnnw o brif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.